| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **25 MEDI 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **RHEOLI GWYBODAETH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN** | **GILL LEWIS<br>PENNAETH SWYDDOGAETH DROS DRO (ADNODDAU)** |
| **GWEITHREDIAD** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Rheoli Gwybodaeth yn ymwneud â manteisio i'r eithaf ac ecsbloetio'r wybodaeth a ddelir gan sefydliad i gyflawni a chynllunio yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau o safon, gan wneud penderfyniadau gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael.

1.2 Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod fod rheolaeth ac ansawdd gwybodaeth a chofnodion o fewn y sector gyhoeddus angen ei wella ac maent wedi comisiynu adroddiadau i roi sylw i'r sefyllfa. Mae yna ganfyddiad fod rheoli gwybodaeth aneffeithiol yn rhwystro gwelliannau yng ngwasanaethau cyhoeddus.

1.3 Ymgymerwyd adolygiad o drefniadau rheoli gwybodaeth y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac adroddwyd ar eu canfyddiadau ym Mehefin 2012. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer rheoli ei ased gwybodaeth yn wan ac yn cyfyngu gallu'r Cyngor i wella.

1.4 Yn ychwanegol i'r adroddiad yma, cynhyrchodd PwC adroddiad ar drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ym Mai 2011. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y Cyngor, fel cynghorau Cymraeg arall, dal yn teithio tuag at drefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu effeithiol o'i wybodaeth ond fod dal nifer o feysydd lle mae angen datblygu os yw'r trefniadau yma i wella.

1.5 Mae Archwilio Mewnol wedi adolygu tri maes ychwanegol yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth. Roedd yr adolygiadau yma'n ymwneud â Rheoli Cofnodion Modern, Diogelwch Data a Pharhad Busnes. Yn ystod yr adolygiadau yma, nodwyd nifer o feysydd sydd angen eu gwella.

## 2. YMATEB RHEOLWYR

2.1 Gan fod nifer o'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r adroddiadau yma'n debyg eu natur, mae'r rheolwyr yn ystyried dylid rhoi sylw i'r adroddiadau ar y cyd yn hytrach na'n unigol. Felly, ymgymerwyd adolygiad o'r cynlluniau gweithredu o'r cyfan o'r pump adroddiad er mwyn cyfuno'r camau gweithredu i mewn i'r prif feysydd lle mae angen gwella.

2.2 Rhestrir yn Atodiad A y prif faterion a gynhwysir yn yr aroddiadau.

2.3 Cynhaliwyd cyfarfod ar 11 Medi 2012, cadeirwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr, i neillltuo cyfrifoldeb am y camau gweithredu gofynnol ar gyfer gwella ac i benderfynu ar y dull gorau o'u cyflawni. Canlyniad y cyfarfod yma oedd :-

- Bydd Grwp Prosiect yn cael ei sefydlu i benderfynu ar y dull gorau i weithredu'r camau gweithredu ac i adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr Ar y cychwyn, Cadeirir y Grwp gan y Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro – Adnoddau ac mae'n cael y dasg o flaenoriaethu'r camau gweithredu a nodwyd a hefyd nodi'r adnoddau i gefnogi eu gweithredu.

- Cynllun Prosiect i gael ei gwmpasu a chynhelir cyfarfod pellach hefo'r Dirprwy Brif Weithredwr ganol Hydref 2012. Yn ogystal, mae angen adolygu os oes materion Rhyddid Gwybodaeth neu Ddeddf Diogelu Data sydd angen sylw.

- Cyfeirio'r adroddiad Parhad Busnes i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i'w ystyried.

- Adolygu diogelwch swyddfa.

- Gwastraff cyfrinachol – angen cael eglurhad o'r sefyllfa bresennol ynglyn â chontract.

2.4 Rhoddwyd y prosesau yma'n eu lle i nodi'r materion o risg/blaenoriaeth uchaf a'r rheini a ystyrir yn allweddol i'r prosiect i'w gweithredu'n gyntaf. Yn ogystal, bydd angen gwneud penderfyniadau ynglyn â sut y cefnogir y materion rheini sydd angen rhagor o adnoddau.

**GILL LEWIS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH DROS DRO (ADNODDAU) 14 MEDI 2012**

**ATODIAD A**

**MATERION YN CODI O'R ADOLYGIADAU'N YMWNEUD Â RHEOLI GWYBODAETH**

Ymgymerwyd pump adolygiad yn ymwneud a Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch Data gan PwC, Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol. Gan fod nifer o'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r adroddiadau yma'n debyg eu natur, ystyrir dylid rhoi sylw i'r adroddiadau ar y cyd yn hytrach na'n unigol.

Y prif materion y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiadau yw :-

**Cyfrifoldebau**
- Angen apwyntio Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth – a diffinio'u rôl;
- Creu Fforwm Diogelwch Gwybodaeth – gyda cylch gorchwyl clir ar gyfer goruchwyliaeth corfforaethol o risgiau; safonnau; polisïau; hyfforddiant, a.y.y.b. yn ymwneud â rheoli gwybodaeth;
- Rolau a chyfrifoldebau yn ymwneud â Pharhad Busnes (yn cynnwys Adfer ar ôl Trychineb TGCh*)* angen eu datgan yn glir;
- Datblygu rôl y Grwp Mynediad i Wybodaeth i gynnwys llywodraethu gwybodaeth a diogelwch.

**Polisi**
- Angen dwyn at eu gilydd bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor sydd o amgylch diogelwch gwybodaeth ac i gynhyrchu un polisi/strategaeth rheoli llywodraethu gwybodaeth cyffredinol;
- Polisi Rheoli Cofnodion;
- Polisi Cadw Dogfennau;
- Gweithdrefn ar gyfer gwaredu'n ddiogel cofnodion papur a gwastraff cyfrinachol;
- Cynllun Parhad Busnes;
- Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh;
- Polisi adferiad yn dilyn digwyddiad risg gwybodaeth;
- Cynhyrchu a chyhoeddi Siarter Gwybodaeth;
- Polisi gweithio o'r cartref.

**Adnoddau**
- Angen adnoddau corfforaethol i ganiatau gweithredu'r cynlluniau gweithredu yn ymwneud â Rheoli / Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch;
- Adnoddau digonol ar gyfer prosesu a throsglwyddo cofnodion modern i'r Ganolfan Archifdy;
- Dylai gwasanaethau gael darpariaeth gyllidebol ar gyfer rheoli eu cofnodion modern, yn cynnwys gwaredu blynyddol yn unol â pholisi cadw;
- Adnoddau i ganiatau profion rheolaidd o adfer o'r broses wrth gefn a phrosesau adfer arall TGCh.

**Diogelwch Data**
- Angen cynyddu cyflymder trosglwyddo cofnodion modern o'r storfa presennol anaddas/anniogel i'r Ganolfan Archifdy – ar ôl i'r holl ddogfennau sydd wedi mynd heibio eu cyfnod cadw gael eu hanfon i'w waredu'n ddiogel;
- Fformaleiddio a chynyddu'r diogelwch o'r trefnaidau gwastraff cyfrinachol;
- Angen stopio defnyddio safle Ysgol y Graig a threfnu trosglwyddo dogfennau wedi eu prosesu i'r Ganolfan Archifdy;

- Dylid adolygu mynediad 24/7 i swyddfeydd y Cyngor ynghyd â'r angen am bolisi desg glir o fewn y Cyngor.

**Adfer ar ôl Trychineb**

- Symud i ffwrdd o adfer ar ôl trychineb a thuag at barhad busnes – angen datblygu arferion/cyfleusterau wrth gefn cadarn ac oddi ar y safle;
- Darpariaeth, adnoddau a gweithredu canolfan Adfer ar ôl Trychineb TGCh oddi ar y safle a gellir ei ddefnyddio fel Canolfan Gorchymyn Aur ar gyfer Argyfyngau Sifil;
- Caffael generadur cefn i'r swit TGCH.

**Rheoli Gwybodaeth**

- Cynllun risg blynyddol yn adolygu'r holl asesiadau ac yn edrych ar newidiadau, bygythiadau a chyfleoedd y dyfodol;
- Cynllun Sicrwydd Cynhwysfawr – fformaleiddio'r dulliau o archwilio'r meysydd yma, y meysydd risg uchel lle dylid canolbwyntio adnoddau archwilio;
- Angen hyfforddiant staff ac ymwybyddiaeth o'u rôl yn llywodraethu, rheoli a diogelwch gwybodaeth;
- Adolygu'r prosesau presennol ar gyfer rhanu gwybodaeth i sicrhau eu bod yn cwrdd â holl bolisïau presennol y Cyngor;
- Dylid cynnal ymarferion mapio data a dosbarthiad data;
- Sefydlu Cofrestr Trosglwyddo Data.